# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2021.

Mae'r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, S.D. Perkes, L.O. Rowlands a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a I. Cramb (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio).

468 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

469 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr T.H. Jarvie, J.M. Norman ac A.C. Parker.

470 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

471 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

472 AILGYFLUNIO DARPARIAETH MEITHRIN YM MHENARTH (CYF) –

Roedd y Cabinet, ar 13 Medi, 2021 wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad ar gynnig i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth drwy:

- gyfuno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode; a
- chyfuno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan.

Roedd y Cabinet hefyd wedi penderfynu y dylid cyfeirio'r mater i’r Pwyllgor i'w ystyried
yn rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Strategaeth ac Adnoddau fod y Cyngor wedi ceisio symud tuag at fodel ysgol gynradd ar gyfer addysg 3 i 11 mlynedd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan oedd yr unig ddwy ysgol feithrin annibynnol yn y Fro ac Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan oedd yr unig ddwy ysgol gynradd arall yn y Fro nad oeddent yn cynnig, neu nad oeddent â chynlluniau wedi'u cymeradwyo i gynnig, darpariaeth feithrin. Cynigiwyd felly y dylid uno Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Bute Cottage (gan arwain at gynnig 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Evenlode ar safle Bute Cottage), a hefyd uno Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Feithrin Cogan (gan arwain at gynnig 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Cogan ar safle Ysgol Feithrin Cogan).

Amlinellodd y Swyddog brif fanteision y cynnig i'r Aelodau, a rhoddodd wybod am y trefniadau ar gyfer yr ymarfer ymgynghori a fyddai'n cael ei gynnal yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Ar ôl i’r Swyddog gyflwyno’r adroddiad, ymatebwyd i ymholiadau’r Aelodau fel a ganlyn:

- Dangosodd adroddiadau anecdotaidd gan aelod o staff yn Ysgol Gynradd Tregatwg (a oedd wedi cyfuno â'i safle Meithrin bum mlynedd yn flaenorol) fod y manteision yn drech nag unrhyw anawsterau, gyda llawer mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol fel rhan o ysgol fwy, er bod yr uno wedi bod yn anodd i ddechrau.
- Dangosodd data ar gyfer disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 2 cyn ac ar ôl cyfuno yn Ysgol Gynradd Tregatwg fod disgyblion wedi gwneud cynnydd ym mhob maes.
- Roedd adroddiad Estyn 2017 ar Ysgol Gynradd Tregatwg wedi cyfeirio'n benodol at effaith cyfuno ar arweinyddiaeth yn yr ysgol, gan nodi ei fod wedi'i ail-alinio a'i gryfhau, gan arwain at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod y cyfuno wedi gwella'r broses bontio ar gyfer disgyblion, a oedd yn ei dro yn fantais ddisgwyliedig i'r cynnig presennol.
- Byddai'r arbediad disgwyliedig o £70,000 yn cael ei gyflawni drwy leihau costau cyffredinol, ac ni fyddai unrhyw effaith ar gyllid a arweinir gan ddisgyblion ac ni fyddai’n cael ei leihau. At hynny, ni fyddai'r arbediad yn cael ei dynnu o gyllideb yr ysgolion ond byddai'n cael ei ailddyrannu’n fewnol.
- Roedd gan safleoedd ar wahân ar gyfer darpariaeth Feithrin a Chynradd ddewis o gynlluniau darllen i'w dilyn, ac er nad oedd unrhyw amheuaeth ynghylch ansawdd yr addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion dan sylw byddai cyfuno yn golygu y byddai rhaglenni llythrennedd yn parhau drwy gydol y cyfnodau Meithrin a Chynradd, a'r gobaith oedd y byddai hyn yn atal unrhyw ostyngiad mewn perfformiad o ganlyniad i bontio.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, gyda chaniatâd i siarad, am ymateb i sylwadau'r Aelodau ynghylch gwybodaeth anghywir ymhlith y gymuned ynghylch defnyddio safle Bute Cottage yn y dyfodol. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet

nad oedd bwriad i newid safle'r ddarpariaeth feithrin, ac er bod yr adroddiad yn cyfeirio'n fyr at waith dichonoldeb sy'n cael ei wneud yn y maes hwn, byddai angen ymgynghoriad statudol pellach cyn y gellid cymryd unrhyw gamau pellach. Roedd yr ymgynghoriad presennol yn ymwneud yn llwyr â'r gwaith o lywodraethu a rheoli'r cyfuniadau arfaethedig.

Gan fod y Pwyllgor wedi ystyried y cynnig yn llawn, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD – Y dylid cymeradwyo'r penderfyniadau fel y'u cynhwysir yn y cyfeirnod gan y Cabinet dyddiedig 13 Medi, 2021 (Cofnod Rhif C662).

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynnig fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

473 YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU LHDTC+ CYMRU LLYWODRAETH CYMRU (CYF) –

Roedd y Cabinet, ar 11 Hydref, 2021 wedi cymeradwyo ymateb drafft y Cyngor i Gynllun Gweithredu LHDTC+ drafft Llywodraeth Cymru i Gymru yn amodol ar sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, ac felly roedd wedi cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor i'w ystyried cyn diwedd y cyfnod ymgynghori ar 22 Hydref, 2021.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori yn amlinellu cynigion drafft ar gyfer Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru gyda llawer o gamau gweithredu sy'n berthnasol i Awdurdodau Lleol.  Roedd gan y cynllun chwe nod cyffredinol:

- Gwneud cydraddoldeb a hawliau dynol i bobl LHDTC+ yn gryfach;
- Herio rhagdybiaethau pan fydd gwasanaethau'n nodi pobl LHDTC+ neu'n casglu gwybodaeth am bobl LHDTC+ fel y gallant gynllunio ac adeiladu gwasanaethau'n well;
- Sicrhau bod hawliau pobl LHDTC+ yn cael eu parchu ym mhob , awdurdod lleol, gwasanaeth ac adran y Llywodraeth;
- Casglu gwybodaeth yn well fel y gellir ei defnyddio i atal gwahaniaethu ac anghydraddoldebau mewn gwasanaethau;
- Helpu gwasanaethau a'u staff i ddeall a chefnogi anghenion pobl LHDTC+ yn well; a
- Troi’r Panel Arbenigol Annibynnol yn banel parhaol fel y gall wirio bod y cynllun yn gweithio a'i ddiweddaru os oes angen.

Roedd y Cynllun hefyd yn cynnwys 58 o gamau gweithredu ar draws y nodau cyffredinol a saith thema bolisi: hawliau dynol a chydnabyddiaeth; sicrhau diogelwch LHDTC+; cartref a
chymunedau gwella canlyniadau iechyd; addysg; gweithle a’r ymateb i
Covid-19.

Gofynnwyd am sylwadau gan swyddogion pob un o Wasanaethau'r Cyngor, yn ogystal â GLAM - Rhwydwaith LHDTC+ y Cyngor, a Diverse - ei Rwydwaith Staff

Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd wedi'u cynnwys yn yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad a oedd wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd ynghylch a oedd yn hyderus y byddai'r Cynllun yn gweithio, dywedodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes, er bod nodau'r Cynllun Gweithredu yn anodd eu dadlau, y byddai llwyddiant y ddarpariaeth yn dibynnu ar allu'r Cyngor i ddod o hyd i ddigon o adnoddau yn y meysydd a amlygwyd ac i'w blaenoriaethu. Cytunodd yr Aelodau, er eu bod yn edrych ymlaen at adeg pan nad oedd angen Cynllun Gweithredu o'r fath mwyach, fod angen amddiffyn aelodau o'r gymuned LHDTC+ tan hynny.

Roedd yr Is-gadeirydd am dynnu sylw at y sylwadau hynny yn yr adroddiad yn dangos nad oedd y Cynllun Gweithredu wedi'i gymeradwyo'n llwyr, a dywedodd fod unigolion a grwpiau wedi cysylltu â hi a oedd yn teimlo nad ymgynghorwyd â hwy'n llawn ar y mater hwn, a bod y Cynllun wedi'i ysgrifennu mewn rhyw fath o swigen heb ystyried yn llawn oblygiadau ehangach rhywfaint o'r cynnwys ar gyfer gweddill y gymdeithas. Adleisiodd yr Is-gadeirydd yr amheuon hyn a gofynnodd iddynt gael eu hystyried wrth symud ymlaen. Cydnabu'r Swyddog bryderon yr Is-gadeirydd ynghylch Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru a nododd fod ymateb drafft y Cyngor i'r ymgynghoriad yn cydnabod yr angen i gryfhau cyfeiriadau at groestoriadedd ac i ddeall goblygiadau a chymhlethdod trin pobl fel unigolion.

Gan fod yr Aelodau wedi ystyried yn llawn y Cynllun Gweithredu ac ymateb drafft y Cyngor i'r ymgynghoriad, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD – Y dylid cymeradwyo ymateb drafft Cyngor Bro Morgannwg i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu LHDTC + Llywodraeth Cymru.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

Er mwyn galluogi cyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau o 22 Hydref, 2021.

474 ADRODDIAD HYFFORDDI LLYWODRAETHWYR AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2020/21 (CDS) –

Cyflwynodd y Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr yr adroddiad a oedd yn rhoi sylwebaeth a chrynodeb ystadegol o'r niferoedd presenoldeb a'r gwerthusiadau a dderbyniwyd ar gyfer cyrsiau hyfforddi llywodraethwyr ar-lein a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21.

Er gwaethaf Covid 19 a'r cyfyngiadau, ni effeithiwyd yn andwyol ar gyfleoedd hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr y Fro yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Roedd y nifer uchaf erioed o lywodraethwyr wedi mynychu'r nifer uchaf erioed o gyrsiau hyfforddi, gyda 51 o sesiynau rhithwir wedi'u cynnal, a 682 o lywodraethwyr y Fro wedi'u mynychu.

O ran gwerthusiadau, derbyniwyd 140 o werthusiadau gan 283 o lywodraethwyr a oedd yn mynychu 16 o gyrsiau a gynhaliwyd gan y Fro yn ystod blwyddyn

academaidd 2020/21, gyda dros 90% o lywodraethwyr yn dweud bod y cyrsiau naill ai'n dda neu'n dda iawn.

Ar ôl i'r Swyddog gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Dr.M. Price, fel Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (CLlYF), fod Pwyllgor Rheoli CLlYF wedi bod yn falch iawn o ddarllen yr un adroddiad yn ei gyfarfod yr wythnos flaenorol, a dymunodd ganmol y gwaith da a oedd yn cael ei wneud o ran rhoi hyfforddiant i lywodraethwyr ym Mro Morgannwg.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD – DYLID nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

475 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST 2021 (CDS) –

Cyflwynodd y Prif Gyfrifydd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynnydd refeniw a gwariant cyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai, 2021.

Roedd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn heriol gyda'r pwysau parhaus ar y gwasanaeth yn weithredol ac yn ariannol oherwydd pandemig COVID-19. Byddai hyn yn effeithio ar y ddau oherwydd gwariant ychwanegol ond hefyd oherwydd colli incwm. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i ymdrin â rhai o'r materion.

Roedd targed arbedion ar gyfer y flwyddyn wedi'i osod ar £59k, ac roedd y gyllideb gyfalaf gyfredol a gymeradwywyd wedi'i gosod ar £41.579m.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau gan yr Aelodau ar y pryd, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD – DYLID nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

476 OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU 2IL CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac amserlen wedi'i diweddaru'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ei hystyried.

Wedi'u hatodi i'r adroddiad roedd:

- Tracio Argymhellion Chwarter 2 - Mis Gorffennaf i fis Medi 2021 (Atodiad A)
- Tracio Argymhellion Chwarter 1 - Mis Ebrill i fis Mehefin 2021 (Atodiad B)
- Argymhellion heb eu cwblhau ar gyfer Blwyddyn Fwrdeistrefol 2019-20 (Atodiad C)
- Amserlen wedi'i diweddaru Blaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 (Atodiad D).

Ers cyhoeddi Agenda'r cyfarfod, roedd Consortiwm Canolbarth y De wedi rhoi gwybod am adroddiadau ei fod yn bwriadu eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021, ac yn ystod y cyfarfod cadarnhaodd y Prif Gyfrifydd y byddai adroddiadau ynghylch Cynigion Cychwynnol y Gyllideb yn barod i'r Pwyllgor eu hystyried ym mis Rhagfyr yn hytrach nag ym mis Tachwedd. Cynigiwyd felly y dylid gwneud y diwygiadau hyn i Amserlen y Flaenraglen Waith FWP cyn iddi gael ei lanlwytho i wefan y Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd N.C. Thomas a oedd unrhyw le i ystyried a oedd angen cyflwyno holl adroddiadau'r Flaenraglen Waith yng nghyfarfod y Pwyllgor neu a ellid dosbarthu rhai i'r Aelodau er gwybodaeth. Nododd y Cadeirydd fod y mater hwn wedi'i ystyried o'r blaen ond roedd yn hapus i'r Pwyllgor edrych arno ato, a dywedodd Swyddog Cynorthwyol y Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n mynd i'r afael â'r cwestiwn gyda'r Swyddogion a'r Cadeirydd cyn i ddiweddariad nesaf y Flaenraglen Waith gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Gan nad oedd unrhyw ymholiadau pellach ar y pryd, penderfynwyd

ARGYMHELLWYD –

(1) DYLID cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A, B ac C i'r adroddiad.

(2) DYLID cymeradwyo Amserlen Blaenraglen Waith y Pwyllgor sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor, yn amodol ar welliannau fel y trafodwyd ac y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth.